mae i "awdurdodiad" yr ystyr a roddir i "authorisation" gan adran 136(5) o'r Ddeddf honno."

(3) Yn rheoliad 10(b), yn lle "rheoliad 7(5)" rhodder "rheoliad 7(6)".

(4) Yn rheoliad 16—

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "7(7)" rhodder "7(8)";

(b) ym mharagraff (5), ar ôl "gyfarwyddyd man cyhoeddus" mewnosoder "sy'n gosod gwaharddiad, gofyniad neu gyfyngiad mewn perthynas â mynediad i'r man";

(c) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

"(5A) Pan fo gan gwnstabl sail resymol dros amau bod person mewn man cyhoeddus yn gweithredu yn groes i gyfarwyddyd man cyhoeddus sy'n gosod gwaharddiad, gofyniad neu gyfyngiad mewn perthynas â chynnal gweithgaredd yn y man, caiff y cwnstabl gymryd unrhyw gamau y mae'r cwnstabl yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn atal y person rhag parhau i weithredu yn groes i'r cyfarwyddyd (gan gynnwys symud y person o'r man).";

(d) ym mharagraff (6)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle "neu (5)" rhodder ", (5) neu (5A)";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "neu (5)(b)" rhodder ", (5)(b) neu (5A)";

(e) ym mharagraff (7), yn lle "neu (5)" rhodder ", (5) neu (5A)".

(5) Yn rheoliad 18(1)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "7(8)" rhodder "7(9)";

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "7(7)" rhodder "7(8)".

(6) Ym mhob lle y mae'n digwydd yn y darpariaethau a restrir ym mharagraff (7)—

(a) yn lle "dirymu" (pan nad yw'n cael ei ddilyn gan "cyfarwyddyd" neu "cyfarwyddydau") rhodder "thynnu'n ôl" ac yn lle "ddirymu" (pan nad yw'n cael ei ddilyn gan "cyfarwyddyd") rhodder "dynnu'n ôl";

(b) yn lle "ddirymu'r cyfarwyddyd" rhodder "dynnu'r cyfarwyddyd yn ôl";

(c) yn lle "dirymu cyfarwyddyd" rhodder "tynnu cyfarwyddyd yn ôl" ac yn lle "ddirymu cyfarwyddyd" (pan nad yw'n cael ei ragflaenu gan "neu") rhodder "dynnu cyfarwyddyd yn ôl";

(d) yn lle "dirymiad" rhodder "tynnu'n ôl" ac yn lle "ddirymiad" rhodder "dynnu'n ôl";

(e) yn lle "a dirymu cyfarwyddydau" rhodder "cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl" ac yn lle "neu ddirymu cyfarwyddyd" rhodder "cyfarwyddyd neu dynnu cyfarwyddyd yn ôl".

(7) Y darpariaethau yw—

(a) rheoliadau 8, 9 a 13 gan gynnwys, pan fo'n berthnasol, eu penawdau;

(b) penawdau Penodau 1 a 3 o Ran 2.

*Mark Drakeford*

Am 3.50 p.m. ar 9 Hydref 2020 — Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

